Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

**Annwyl Riant/Gofalwr,**

Rydym yn falch o gadarnhau bod pob plentyn sydd wedi cofrestru ar gyfer lle yng nghlybiau allgyrsiol yr ysgol wedi cael lle. Ni allwn dderbyn rhagor o geisiadau ar gyfer Clwb yr Urdd na'r Clwb Gemau gan ei bod wedi cyrraedd yr uchafswm.

Bydd y clybiau yn dechrau'r wythnos hon fel a ganlyn:

- **Clwb yr Urdd (Blynyddoedd 1-6)** - Dydd Mawrth
- **Clwb Chwaraeon (Blynyddoedd 3-6)** - Dydd Mercher
- **Clwb Gemau (Blynyddoedd 4-6)** - Dydd Iau

Os nad ydych yn sicr a ydych wedi cofrestru eich plentyn ar gyfer unrhyw un o'r clybiau hyn, cysylltwch â derbynfa'r ysgol.

Yr unig newid i'r drefn arferol yw ar gyfer **Clwb yr Urdd i ddisgyblion Blynyddoedd 4, 5 a 6**. Mae staff yr Urdd wedi cynnig dod i'r ysgol i redeg y clwb, gyda staff yr ysgol ar gael i gefnogi pan fo angen.

Er mwyn i'ch plentyn fynychu Clwb yr Urdd, gofynnwn yn garedig i chi ymaelodi eich plentyn â'r Urdd cyn gynted â phosibl. Bydd yr ysgol yna'n talu costau staffio yr Urdd er mwyn i'r clwb mynd yn ei flaen.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at weld y plant yn mwynhau'r clybiau dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,

**Ysgol Gymraeg Tonyrefail**

Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

**Dear Parent/Carer,**

We are pleased to confirm that all child that have registered for school clubs have been allocated a place. We can no longer take any additional pupils for the Urdd club or Games Club as we've reached capacity.

The clubs will begin this week as follows:

- **Urdd Club (Years 1-6)** – Tuesday
- **Sports Club (Years 3-6)** – Wednesday
- **Games Club (Years 4-6)** – Thursday

If you are unsure whether you have registered your child for any of these clubs, please contact the school office.

The only change to the usual arrangements is for **Urdd Club for pupils in Years 4, 5 and 6**. Urdd staff have kindly offered to come into school to run the club, with school staff available to support when needed.

In order for your child to attend Urdd Club, we kindly ask that you register them as an Urdd member as soon as possible. The school will cover the staffing costs for the Urdd to ensure this club can proceed.

Thank you for your continued support. We look forward to seeing the children enjoy the clubs over the coming weeks.

**Yours sincerely,**

**Ysgol Gymraeg Tonyrefail**